

# WILLIAM JONES O DDYFFRYN CLWYD Y TANGNEFEDDWR ANGHOFIEDIG

gan EMYR WYN JONES

CENEDL fechan o ran rhif ydym ni'r Cymry ond fe gawsom y fraint o fagu a meithrin nifer o heddychwyr eithriadol, a'u dylanwad yn ymestyn ymhell tu draw i ffiniau ein gwlad. Yn y cyswllt presennol ni wneir dim ond nodi eu henwau — Joseph Tregelles Price (1784-1854) o Gastell-nedd; Samuel Roberts (1800-85); 'S.R.' o Lanbryn-mair; Henry Richard (1812-88) o Dregaron — yr 'Apostol Heddwch' — mae hanes eu bywyd a'u gwaith wedi ei groniclo'n bur fanwl yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae eu safiad dros egwyddorion heddychaeth yn parhau'n destun edmygedd a diolch.

Erys enw arall yr un mor ddylanwadol â hwythau, ond sydd am ryw reswm wedi ei lwyng anghofio yn ei famwlad a hyd yn oed yn ei ddyffryn genedigol. Ganwyd William Jones ar 10 Mai 1826 yn Rhuthun, yn ail fab i 'John Jones y Crynwr' — dinesydd adnabyddus a mawr ei barch — a'i wraig Margaret, wyres i'r bardd Jonathan Hughes, o Langollen. Aeth William i'r ysgol gynradd yn y dref, a phan oedd yn wyth mlwydd oed fe'i derbyniwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Cyfeillion. Nid oedd drws yr Ysgol Ramadeg leol yn agored i fachgen o deulu anghydfurfiol, felly danfonwyd ef ym 1835 i Ysgol Breswyl y Crynwr yn Ackworth, Swydd Efrog. Bu yno am gyfnod o dair blynedd heb ddod adref o gwbl. Yn anochel troes yntau yn Sais o ran iaith, ond ni cholodd ronyn o'i gariad at Gymru.

Bu farw ei fam yn 1837, a'r flwyddyn ddilynol priododd ei dad Saesnes — Crynwres 'nad oedd ganddi na chydymdeimlad â phobl Cymru nac â'r Gymraeg'. Wedi cyrraedd oedran tair blwydd ar ddeg — ac ychydig wythnosau dros ben hynny — 'ystyriwyd fod William yn barod i ddechrau ar yrfa fasnachol'. Nid oedd ganddo fawr o ddewis, oblegid fel Crynwr nid oedd gobaith iddo am fynediad i Brifysgol. Prentisiwyd ef i groser yn Lerpwl am saith mlynedd, ond methodd â dygymod â'r gwaith caled a'r oriau hir. Ymhen dwy neu dair

blynedd torrodd ei iechyd, a'r symptomau yn awgrymu'r dicáu. Bu adref am gyfnod maith yn ceisio adennill hoes a nerth. Pan oedd yn ddeunaw oed mentrodd ymgymryd â swydd fel athro yn Ysgol y Cyfeillion yn Rawdon, Efrog. Unwaith eto fe'i trechwyd gan faich cyfrifoldeb ac oriau afresymol o faith ar ddyletswydd, a gorfu iddo ddychwelyd i Ddyffryn Clwyd.

Yn rhagluniaethol daeth cyfle iddo dderbyn swydd amgenach o lawer fel tiwtor i nai John Pease, aelod o deulu nodedig o ddylanwadol o Grynwr, a'u gwreiddiau yn Darlington. Cafodd gyfle yno i atgyfnerthu ac i ddarllen yn helaeth, dysgodd Ffrangeg yn rhugl a gallai siarad peth Almaeneg hefyd. Pan ddaeth ei gyfnod fel tiwtor i ben aeth i gyd busnes fel gweinyddwr, ond yn fuan iawn dechreuodd ei fusnes cemegol ei hun — a bu'n dra llwyddiannus. Ym mis Awst 1853 priododd William Jones ag Anne Sefton o Stockton-on-Tees — a fu'n gyd-athrawes ag ef yn Rawdon. Ganwyd iddynt ddau fachgen — Herbert a Llewelyn.

Dyna grynodedd byr iawn o hanes llanc gwantant ei iechyd, o deulu cyffredin a heb fanteision arbennig, yn llwyddo ym myd masnach ac yn ennill dylanwad dinesig lleol. Nid oedd dim byd allan o'r cyffredin yn nodweddu ei yrfa, a dim byd i awgrymu y byddai yn gwneud cyfraniadau amhrisiadwy ac unigryw i achos heddychaeth a chymod yn Ewrop. Mae'n rhaid bodloni ar ddwy enghraifft o'i weithgarwch yn y maes yma.

Yn 1866 trechwyd Awstria gan Prwsia, ac yn fuan wedyn ymledodd yr anghydfod rhwng Prwsia a Ffrainc nes torrodd rhyfel rhyngddynt yn 1870. O ganlyniad, ac mewn amser byr, roedd dioddefaint gwerinwyr gogledd Ffrainc yn dorcalonnus — eu cartrefi yn anghyffannedd, eu ffermydd yn anialdir a'u newyn yn arteithiol. Ar ben hynny roedd y trefniadau i ymgeleddu milwyr clwyfedig Ffrainc yn 'gwbl ddiffygiol'. O fewn ychydig fisoedd roedd Ffrainc yn llwyr orchfygedig a Pharis ei hun dan sawld Prwsia.

Yn y cyfamser dewiswyd William Jones i fynd allan yn 1870 i ganol yr heldrin a'r galanas i weinyddu'r Gronfa Gynorthwyol a sefydlwyd gan y Crynwr ym Mhrydain, a chydâ'r bwriad o geisio lleddfu'r dioddefaint. Roedd ganddo gred-lythyrau yn caniatáu iddo deithio'n ddirwstr — ond nid yn ddiogel o bell ffordd — rhwng y naill ochr a'r lall. Bu dyfais, arweiniad, dyfalbarhad a dewrder personol William Jones o werth cwbl amhrisiadwy yn y fenter hanesyddol hon, er gwaethaf llu o anawsterau a pheryglon. Ildiodd Paris ddiwedd Ionawr 1871 ac fe arwyddwyd Cytundeb Heddwch ddechrau Mai. Dychwelodd William Jones adref i ailgydio yn ei waith masnachol.

Erbyn haf 1876 roedd newyddion yn cyrraedd Prydain am waith y Twrciaid yn trin gwerinwyr Bwlgaria gyda chreulondeb enbyd ac yn distrywio eu pentrefi. Trodd Disraeli y storïau o'r neilltu fel 'chwedlau gwag-clebran', ond daeth yn amlwg yn fuan nad cywir oedd ei fam. Unwaith eto sefydlodd y Crynwr Gronfa Gymorth arall, dan arweiniad 'ar y maes' gan James Long, ond fe'i trawyd yn ddirifol wael yn gynnar. Anfonwyd William Jones, yntau erbyn hyn yn ŵr hanner cant oed, i gymryd ei le. Unwaith eto gwelodd bentrefi wedi eu dinistrio, ffermdir wedi ei ddifrodi a'r werin dlawd ddirgref yn newynu — ac yn marw yn sgil oerni'r gaef.

Tramwyodd William Jones gefn gwlad Bwlgaria ar hyd llywybrau anhygyrch a thros bontydd simsan, ac mewn perygl parhaus o ymosodiadau gan ladron a llofruddion, heb sôn am anghysur gaef eithriadol o erwin. Ynghanol yr holl erchyllterau ei unig gymdeithion oedd cyfieithydd ac un plismon arfog. Er gwaethaf pob rhwystr llwyddodd yn ei amcan, ar ran y Cyfeillion, i ymgeleddu'r trueiniaid trwy ailadeiladu nifer sylweddol o'u pentrefi, ac adfer eu heglwysy a'u hysgolion. Fel y gellid disgwyl, roedd yn dra beirniadol o ddiymadferthedd

polisi traddodiadol Lloegr yn wyneb y fath alanastra a gorthrwm.

Yn 1883 ymddeolodd Henry Richard o'i swydd fel ysgrifennydd Cymdeithas Heddwch Llundain. Yn rhinwedd ymroddiad oes i achos heddychaeth, profiad helaeth o faterion masnachol a dinesig, ac o weithgareddau dyngarol mewn gwledydd tramor, William Jones oedd y dewis amlwg fel olynydd. Derbyniodd yr her, ac fe agorwyd cyfnod o brysurdeb mawr yn ei hanes. Bu'n annerch cyfarfodydd ym mhrif ddinasoedd yr Unol Daleithiau, ac fe gafodd ddau gyfweiliad â'r Arlywydd Cleveland. Aeth i gynhadledd bwysig yn Melbourne, a chyfarfu yno â rhai o brif wleidyddion Awstralia a Seland Newydd. Mae'n debyg mai'r digwyddiad pwysicaf oedd ei gyfweiliad â Li Hung Chang, 'gwleidydd pwysicaf Tseina', yn Tientsin.

Yn lled fuan wedyn gorfu iddo, oherwydd gwendid cynyddol, ddychwelyd i Sunderland o Lundain. Cafodd fyw i weld cyhoeddi ei hunanogfiant yn 1899. Yn y frawddeg gyntaf bron mae'n haeru mai Cymro ydoedd, ac fe aeth ymhellach. Meddai: 'Byddaf fyth yn ddiolchgar am y gallu a gefais yno (*yn Rhuthun*) i ddarllen fy Meibl Cymraeg . . .' Ar 28 Gorffennaf y flwyddyn honno bu farw'n sydyn tra'n aros gyda chyfeillion yn Ardal y Llynnoedd. Ac felly y daeth i ben oes o wasanaeth gwiw yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddisglair o'r ffydd Gristnogol, a'i hoblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol.

*'Mewn angof ni chaiff fod'*

\* \* \* \*

Mae'r awdur yn ymwybol iawn o'r ffaith nad oes modd cyflwyno darlun cyflawn a theilwng o William Jones ar ffurf pamffledyn neu ysgrif fer. Priodol, felly, yw cyfeirio at drafodaeth lawnach ganddo ar y gwron addfwyn hwn yn ei gyfrol *Ymgiprys am y Goron* (1992), Gwasg Gee; a hefyd ei ysgrif Saesneg arno yng *Nghylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1990, Cyf. XXVI, Rhif 4.

**LLYFRAU YSTWYTH**  
7 Princess Street, Aberystwyth  
Dyfed SY23 1DX  
Ffôn (01970) 617511  
Llun-Sadwrn: 10 a.m. — 5 p.m.  
Ar gau ddydd Mercher

**DAVID HARBOURNE**  
**LLYFRAU**  
44 Bishops Walk, Llandaf  
Caerdydd CF4 2HE  
Ffon: (01222) 561154  
*Dewis helaeth o lyfrau ail-law Cymraeg a Chymreig ar werth bob amser. Bob amser yn barod i brynu hefyd.*